**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A THAI**
**DYDD MERCHER, 7 CHWEFROR 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 7 Chwefror 2024.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Pam Banks, Gillian Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Dennis Hutchinson, Kevin Rush, Dale Selvester a Linda Thew

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Ray Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorwyr: Rob Davies, Mared Eastwood, Chrissy Gee, Allan Marshall ac Andrew Parkhurst yn bresennol fel arsylwyr.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Cludiant Rhanbarthol); Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio); Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cryf, gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Y Prif Weithredwr; Y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau); Rheolwr y Gwasanaeth Tai ac Atal; Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) a Rheolwr y Gwasanaeth Rhaglenni Tai

Y Rheolwr Cyllid Strategol a'r Prif Gyfrifydd (ar gyfer cofnod rhif 71)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg

## 68. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 69. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2024 i'w cymeradwyo.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir a chawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Geoff Collett a Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir ac y byddai'r Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 70. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Waith bresennol i'w hystyried, gan sôn am y diwygiad canlynol a wnaed ers y cyfarfod diwethaf:-

- Adroddiad Archwilio Cymru: Gwasanaethau Digartrefedd – ychwanegwyd adroddiad Cyngor Sir y Fflint at y Rhaglen Waith ar gyfer y cyfarfod ar 6 Mawrth.

Mewn perthynas â’r ddogfen olrhain camau gweithredu, sydd i’w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad, adroddodd yr Hwylusydd fod llythyr yn amlinellu pryderon y Pwyllgor am bwysau o ran cyllid ar gyfer digartrefedd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cadeirydd a’i anfon at Lywodraeth Cymru (LlC), ac y byddai copi o’r ymateb yn cael ei rannu pan ddaw. Roedd y wybodaeth ariannol a geisiwyd ynglŷn â Lleoliadau Tu Allan i’r Sir hefyd wedi dod i law ac wedi’i dosbarthu i Aelodau’r Pwyllgor.

Mewn perthynas â chamau gweithredu heb eu cwblhau, dywedodd yr Hwylusydd fod llythyr i LlC ynglŷn â hyrwyddo Prydau Ysgol am Ddim wedi cael ei ddrafftio, ac y byddai’n cael ei rannu â’r Cadeirydd ar ôl y cyfarfod. Hefyd, roedd copi o’r Polisi Anifeiliaid Anwes wedi dod i law a bydd yn cael ei ddosbarthu i Aelodau’r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Kevin Rush a’u heilio gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi’r Rhaglen Waith.

(b) Rhoi awdurdod i’r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio’r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac

(c) Y byddai’r Pwyllgor yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth gyflawni’r camau gweithredu heb eu cwblhau.

## 71. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2024/25

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad yn cynnwys manylion cynigion ychwanegol ar gyfer y portffolio Tai a Chymunedau.

Yn dilyn derbyn Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol siomedig, rhoddwyd y dasg i bob portffolio adolygu eu costau sylfaenol er mwyn canfod ffyrdd posib o leihau cyllidebau neu ddileu’r pwysau o ran costau, er mwyn cyfrannu mwy tuag at lenwi’r bwlch sy’n weddill. Bydd sylwadau’r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ynglŷn â’u meysydd penodol yn cael eu casglu ar gyfer yr adroddiadau pennu cyllideb terfynol ar gyfer y Cabinet a’r Cyngor Sir ar 20 Chwefror.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) y gostyngiadau arfaethedig i’r gyllideb ar gyfer y Portffolio Tai a Chymunedau, fel y nodir yn yr adroddiad, a gwahoddwyd y pwyllgor i adolygu a gwneud sylwadau ar ddewisiadau’r Portffolio i leihau cyllidebau.

Gofynnodd y Cynghorydd Geoff Collett tybed a oedd cymryd arian o’r cronfeydd wrth gefn yn beth synhwyrol i’w wneud o ystyried bod y Swyddogion a’r Aelodau’n gwybod y bydd cyllideb y flwyddyn nesaf gryn dipyn yn waeth, gan

holi tybed a oedd y cynigion yn gwneud pethau'n waeth ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol bod y dewisiadau i fynd i'r afael â digartrefedd wedi cael eu cymeradwyo, ac yr awgrymwyd y dylid clustnodi swm o'r cronfeydd wrth gefn i roi amser i rai o'r dewisiadau hynny ddwyn ffrwyth a mynd i'r afael â'r mater. Byddai hyn yn fwy o bryder pe na bai atebion wedi'u nodi.

Gofynnodd y Cadeirydd pa mor hyderus oedd y Swyddogion y byddai'r atebion a nodwyd i fynd i'r afael â digartrefedd yn gweithio. Dywedodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) y gellid prisio rhai o'r dewisiadau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor, er enghraifft, adnewyddu eiddo er mwyn rhannu tai, ac roedd yn hyderus y byddai'r dewisiadau'n cael effaith, ond roedd y galw'n parhau i gynyddu. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Tai ac Atal y datblygwyd amcanestyniadau, ond bod nifer o'r bobl a oedd yn datgan eu bod yn ddigartref yn bobl a oedd yn ddigartref ar y diwrnod. Yr unig beth y gellid ei wneud fel gwasanaeth rheoli argyfwng yw ymateb i'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd.

Cafodd yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson a'u heilio gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi dewisiadau'r portffolio Tai a Chymunedau ar gyfer lleihau'r cyllidebau.

## 72. COFRESTR TAI CYFFREDIN (UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) adroddiad i amlinellu lefelau presennol yr angen am dai ledled y Sir a'r gwahaniaeth rhwng hynny a faint o dai cymdeithasol sydd ar gael, nad oedd yn cynyddu ar yr un raddfa â lefel yr angen am dai sy'n gyffredin yn ein cymunedau.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Tai ac Atal bod yr Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) yn bartneriaeth rhwng yr holl brif ddarparwyr tai cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, sy'n gwasanaethu ardaloedd awdurdodau lleol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Roedd y gwasanaeth i ymgeiswyr yn cynnwys asesiad brysbennu tai, brysbennu atebion tai ar gyfer unigolion sy'n datgan eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, ac amrywiaeth eang o gyngor am ddewisiadau tai. Roedd y gwasanaeth hefyd yn rheoli'r holl ymgeiswyr a dderbynnir ar y Gofrestr Tai Cyffredin ar ôl nodi angen â thystiolaeth amlwg o ran tai. Dim ond yr ymgeiswyr hynny ag angen o ran tai oedd yn cael eu derbyn ar y Gofrestr Tai, ond elwodd yr holl ymgeiswyr ar gyngor am ddewisiadau tai.

Amlinellodd Rheolwr y Gwasanaeth Tai ac Atal y cyfeiriad Polisi ar gyfer dyraniadau Tai Cymdeithasol yn y dyfodol, fel y gwelir yn yr adroddiad, gan ddweud bod Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru wedi cau yn ddiweddar. Wrth edrych yn benodol ar ddyraniadau a chymhwysiad tai cymdeithasol, roedd y Papur Gwyn yn ystyried darn o waith ymchwil, sef *'Dyraniadau: Deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru'*, a oedd yn ceisio deall perfformiad dyraniadau tai cymdeithasol mewn perthynas ag atal a lliniaru digartrefedd.

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaeth Tai ac Atal at Anghenion o ran Tai, fel y nodir yn yr adroddiad, gan ddweud bod y gofrestr tai cymdeithasol yn cynyddu ac yn sgil hynny, bod amseroedd aros am eiddo yn mynd yn hirach. Ar ddiwedd Chwarter Cyntaf cyfnod 2020/21, roedd 1,816 o aelwydydd ar y Gofrestr Tai Cyffredin. Fel y dengys y siart yn yr adroddiad, roedd y galw wedi tyfu yn y blynyddoedd dilynol, a'r nifer presennol o aelwydydd cymwys ar y Gofrestr Tai Cyffredin ar ddiwedd Trydydd Chwarter 2023/2024 oedd 1,983, a hynny ym mis Rhagfyr 2023. Roedd dadansoddiad o'r data i'w weld yn atodiad 1 yr adroddiad.

Roedd arolwg boddhad blynyddol bellach wedi'i gwblhau ar gyfer y Gwasanaeth
Tai Cyffredin, ac roedd prif ganfyddiadau'r arolwg i'w gweld ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad. Gwahoddwyd yr holl ymgeiswyr i gymryd rhan yn yr arolwg, a chafwyd cyfanswm o 210 o ymatebion. Cadarnhaodd y prif ddata boddhad bod 51% o ymgeiswyr, wrth gysylltu gyntaf â'r Tîm Cofrestr Tai a Chyngor, yn teimlo bod y gwasanaeth a gynigiwyd yn rhagorol (17%) neu'n dda (34%).

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin am y stoc tai oedd ar gael ar draws y Cyngor, gan gynnwys gan bartneriaid Cymdeithasau Tai, cytunodd yr Uwch Reolwr Atal i ddosbarthu'r wybodaeth hon ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd Dale Selvester, mewn perthynas â glanhau'r gofrestr, pa mor aml yr oedd hyn yn digwydd drwy'r flwyddyn. Cyfeiriodd at yr anghenion tai arbenigol a nodir yn yr adroddiad, gan ofyn a oedd yna Therapydd Galwedigaethol arbenigol a oedd yn gweithio gyda'r Portffolio Tai i helpu canfod llety priodol a hefyd, a oedd ymgeiswyr oedd eisiau eiddo mwy yn cael adborth realistig, o ystyried y diffyg eiddo 5 ystafell wely ar draws y Sir. Gofynnodd a oedd rhywun yn cysylltu â'r bobl hynny a oedd yn byw mewn eiddo wedi'i addasu, nad oedd angen yr addasiadau mwyach, i weld a oedden nhw eisiau symud tŷ i helpu gyda'r gofrestr angen tai arbenigol, a hefyd a oedd yr achosion o ddyblygu ceisiadau a ganfuwyd yn dangos angen am hyfforddiant wrth roi pobl ar y gofrestr.

Ymatebodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal drwy ddweud nad oedd y gofrestr yn cael ei hadolygu bob blwyddyn gan fod adolygiadau'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, gydag ymgeiswyr Band 1 yn cael eu hadolygu mor aml ag y bo modd. Roedd yna Therapydd Galwedigaethol arbenigol yn gweithio gyda thîm y gofrestr tai ac unrhyw bartneriaid tai i ystyried addasiadau mawr, er mwyn osgoi gorfod ychwanegu pobl at y gofrestr angen tai arbenigol, a hefyd i baru pobl ag eiddo gwag priodol. O ran eiddo mwy, mae'r tîm yn ceisio rheoli disgwyliadau cystal ag y gallant ac mae adnodd mapio ar gael i ymgeiswyr ar y wefan i ddangos ble mae'r nifer gyfyngedig o gartrefi cymdeithasol i deuluoedd mwy ar gael ar hyd a lled y Sir. Dywedodd fod y tîm yn blaenoriaethu ymgeiswyr sydd eisiau symud i dŷ llai os oedd yr eiddo o fudd i'r Cyngor, a'u bod hefyd yn gwneud gwaith wedi'i dargedu. Dywedodd hefyd fod y dyblygu ymgeiswyr ar y gofrestr yn fater hyfforddi a oedd yn cael sylw.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Selvester at y ceisiadau yn ôl math o eiddo yn yr adroddiad, a oedd yn nodi bod 30 o bobl yn aros am eiddo 5 ystafell wely, ond holodd pam fod y ffigwr hwn i'w weld fel 17 yn adran 1.08 yr adroddiad. Cytunodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal y byddai'n egluro hyn i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd Dave Evans dan ba amgylchiadau fyddai'r Cyngor yn gadael rhywun ar y gofrestr ar Fand 4 os oedden nhw'n fwriadol ddigartref neu heb unrhyw gysylltiad lleol. Yn dilyn ymateb gan yr Uwch Reolwr Tai ac Atal, awgrymodd y Cadeirydd y dylid dosbarthu astudiaeth achos ar gyfer pob un o'r Bandiau, o 1 i 4, i aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod er mwyn egluro'r meini prawf ar gyfer pob band yn well.

Cafodd yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Geoff Collett a'u heilio gan y Cynghorydd Dave Selvester.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r lefel gyfredol o angen o ran tai ar draws y Sir a'r pwysau cynyddol o ran tai cymdeithasol nad oedd yn cyd-fynd â'r cyflenwad o gartrefi oedd ar gael yn lleol; ac

(b) Y dylid cael adborth gan yr ymgeiswyr yn dilyn canlyniadau'r Arolwg Boddhad Cwsmeriaid ar gyfer y Gofrestr Tai Cyffredin.

## 73. RHEOLI EIDDO GWAG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) y ffigyrau a'r gweithgareddau allweddol wrth gyflawni'r cynllun gweithredu ar gartrefi gwag, fel y nodwyd yn y nodyn briffio.

Soniodd am nifer y tai gwag newydd a'r rhai a gwblhawyd, a dywedodd fod 33 eiddo wedi eu cwblhau yn barod i'w dyrannu. Soniodd hefyd am y wybodaeth ganlynol a gyflwynwyd yn y nodyn briffio:-

- Nifer yr eiddo mawr gwag
- Cyfanswm nifer yr eiddo gwag a oedd wedi cynyddu ychydig i 237
- Perfformiad y contractwyr presennol
- Y prif resymau dros derfynu contractau

Gwnaeth y Cynghorydd David Evans sylw am y rhesymau dros derfynu contractau a restrir yn y nodyn briffio, gan awgrymu y dylid rhestru'r rhesymau dros derfynu mewn trefn i gyd-fynd â'r nifer a ddangosir yn y tabl. Dywedodd fod y sylwadau am y contractwr ychwanegol wedi tawelu ei feddwl ond nad oedd yn teimlo'n gadarnhaol am nifer yr eiddo gwag, a dywedodd ei fod eisiau gweld y ffigwr hwn yn gostwng i'r bôn dros y misoedd nesaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin pa mor gyflym yr oedd eiddo gwag nad oedd angen gwaith gwella yn cael eu hail-ddyrannu i denant newydd. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth gan ddweud y byddai'r eiddo hynny'n cael eu pennu'n eiddo sydd angen mân welliannau, ac y byddent yn cael eu neilltuo i dîm mewnol y Cyngor. Y targed ar gyfer mân welliannau oedd 20 diwrnod gwaith ac roedd y targed hwn yn cael ei gyrraedd. Ychwanegodd fod 70% o'r eiddo angen cryn dipyn o waith ac mai dyma'r prif reswm y tu ôl i'r oedi oherwydd materion etifeddol.

Cefnogodd y Cynghorydd Kevin Rush sylwadau'r Cynghorydd Evans, gan godi pryder y byddai'n cymryd nifer o flynyddoedd i ddod â nifer yr eiddo gwag i lawr i lefel y gellir ei rheoli pe bai nifer yr eiddo gwag a ddychwelir yn dilyn y cyfartaledd dros yr 8 mis diwethaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y Cyngor yn gweithio gyda chwmni i ailgylchu dodrefn, ac yn unol â Pholisi'r Cyngor, y dylid dychwelyd eiddo gwag mewn cyflwr glân a thaclus, ac y gallai unrhyw beth a adawir yn yr eiddo fod yn gost daladwy i'r Cyngor. Dywedodd y byddai'n ailafael ym mhryder penodol y Cynghorydd Hutchinson ar ôl y cyfarfod.

Cafodd yr argymhelliad i nodi'r diweddariad ei gynnig gan y Cynghorydd Geoff Collett a'i eilio gan y Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**74. CYNLLUN BUSNES CARTREFI GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth Rhaglenni Tai Gynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru, a oedd yn nodi elfennau allweddol strategaeth ddatblygu arfaethedig y cwmni. Cymeradwywyd y Cynllun Busnes gan Fwrdd Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru fel dogfen gynllunio strategol yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2024.

Ymatebodd Rheolwr y Gwasanaeth Rhaglenni Tai i gwestiynau gan yr Aelodau am safle Depo Canton a chyllid a grantiau Llywodraeth Cymru.

Cynigiodd y Cynghorydd Kevin Rush yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad, ac eiliodd y Cynghorydd David Evans y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo Cynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru 2024/2053.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.17am)

..................................................

**Y Cadeirydd**